

## Calendr Adfent

Mae yna bob math o galendrau Adfent yn y siopau eleni eto. Does gan y rhan fwyaf ohonyn nhw ddim o gwbl i'w wneud â'r Adfent na'r Nadolig. Mae ambell un, diolch am hynny, yn dangos golygfeydd o Stori'r Geni. Ond prin iawn ydyn nhw.

Mae ambell i siop yn gwerthu calendr Adfent a wnaed gan y *Meaningful Chocolate Company*. Mae'r cwmni'n honni mai dyma'r unig galendr Adfent siocled sy'n dangos stori'r Geni ac sydd hefyd yn Fasnach Deg ac yn rhoi cyfran o'i elw i elusennau.

Pris y calendrau adfent hyn yw £3.99 yr un.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Tachwedd 22:** Cynhelir oedfa am 10.00 o'r gloch dan arweiniad Mr Robert Morris, Penygroes.

**CAPEL COCH A NANT PADARN Sul, Tachwedd 22:** Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 15:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Tachwedd 15

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Tachwedd 22

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

### Tachwedd 29

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Tachwedd 19:** Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 22:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Llun, Tachwedd 16:** Cynhelir y Dosbarth Gwau yn y festri rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Tachwedd 20:** Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 22:** Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am **3.15 o'r gloch** gan y Gweinidog, a gweinyddir y Bedydd yn yr oedfa hon.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Tachwedd 20:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Tachwedd 15

10.00 a.m. - Andrew Settatree  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Andrew Settatree

### Tachwedd 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

### Tachwedd 29

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg W Williams



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 658: Dydd Sul, 15 Tachwedd, 2015

## Paris

Hen fyd creulon, gorffwyll yw hwn. Gwelwyd hynny eto nos Wener yn y saethu a'r bomio ym Mharis. Hyd yma, cadarnhawyd fod 128 o bobl wedi eu lladd yn y gwahanol ymosodiadau ar draws y ddinas. Mae'r Wladwriaeth Islamaidd (IS) wedi datgan mai nhw fu'n gyfrifol am y cyfan.

Daeth arswyd ac ofn i Baris nos Wener. I ganol bywyd cyffredin y ddinas daeth dioddefaint a marwolaeth, gyda bwled a bom yn tawelu cân y theatr a chri'r stadiwm a chwerthin y tai bwyta. Daeth maes y gad a dinistr rhyfel i strydoedd y ddinas brydferth hon. Yn y rhyfel gwaedlyd yn erbyn terfysgaeth yr un yw'r gwaed a'r galar ar strydoedd Paris ag unrhyw bentref a thref a dinas yn Irac ac Affganistan a Syria. Mewn byd anwar, mae rhyfeloedd yn amlhau a phobl yn dal i gredu mai trwyddynt y mae mynd i'r afael â'r cwerylon a'r anghyfiawnder sy'n sail i'r elyniaeth sydd rhyngom a'n gilydd.

Gweddiwn dros y bobl a ddioddefodd ym Mharis. A chondemniwn y lladd. Gallwn o leiaf wneud hynny. Ond mae yna rai sy'n gwarafun i ni'r hawl i wneud hynny. Ac yn chwerwder a brath eu geiriau mae gorffwylledd a chasineb ein byd yn cael ei gadarnhau mewn ffordd hynod drist. Ymateb Justin Welby, Archesgob Caergaint i'r hyn a ddigwyddodd ym Mharis oedd, 'Newyddion dychrynlyd am drasiedi enfawr, gyda thorcalon i gynifer o bobl. Rydym yn wyllo gyda'r rhai sydd wedi

eu taro, ac yn gweddio am ymwared a chyfiawnder'. Mor drist oedd gweld yr ymateb a gafwyd i'r geiriau hyn a ysgrifennodd ar ei gyfrif Twitter, lle'r oedd llawer o bobl yn ei ddirmygu a'i regi gan wawdio pob sôn am weddi, a beio crefydd am bob rhyfel a welodd y byd erioed.

Yr un cyfryngau cymdeithasol a roes gyfle i eraill fwrw eu llysnafedd ar Gerry Adams. Roedd arweinydd Sinn Fein wedi dweud, 'Rhaid condemnio'r ymosodiadau alaethus ym Mharis heno. Bydd fy meddyliau i a phawb yn Iwerddon gyda'r rhai a laddwyd neu a anafwyd.' Mae'r gwleidydd o Wyddel mor gymwys â neb i sôn am gymodi a rhoi heibio hen elyniaeth. Ond roedd yr ymateb iddo yntau yr un mor drist, a phobl yn ei wawdio ac yn gwarafun iddo'r hawl hyd yn oed i gondemnio'r ymosodiadau mileinig.

Ia, byd hurt yw ein byd, gyda phobl yn honni codi llais dros gyfiawnder a heddwch, ond yn gwneud hynny gan regi a bychanu Cristnogion am weddio, a gwrthod yr hawl i eraill i gymodi ac i weithio wedyn dros yr heddwch a'r cyfiawnder hwnnw. Onid casineb ac anoddefgarwch o'r fath sy'n gyfrifol am lawer o'r anghydfod sy'n blino ein byd ac yn arwain at yr holl ddadlau ac ymladd? Peidiwch â gadael i'r lleisiau hyn ein rhwystro rhag gweddio am gysur a diddanwch Duw i bobl Paris, a rhag condemnio'r ymosodiadau hyn a'r 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth' y mae'r ymosodiadau yn rhan ohono.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Andrew Settree. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mrs Mererid Mair Williams, Caernarfon..

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch ech-nos. Diolch i Aled Williams am fod yno i helpu Andrew y tro hwn.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd.

## Oedfa Fedydd

Ddydd Sul nesaf, Tachwedd 22, bydd yr oedfa yng Ngharmel Llanllechid am 3.15 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog. Bydd hon yn oedfa fedydd, ac estynnir gwahoddiad cynnes i bawb.

## Cyflwyno Beiblau

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul nesaf cyflwynir copi o *beibl.net* 360 Stori i deuluoedd yr Ysgol Sul yn hodd gan yr Ysgol Sul. Hwn ydi'r Beibl lliw newydd a gyhoeddwyd y mis hwn. Edrychwn ymlaen at groesawu cymaint â phosibl o deuluoedd yr Ysgol Sul i'r oedfa am 10.30 o'r gloch.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos Lun diwethaf, Tachwedd 9.

Croesawyd pawb gan y Parchg Marcus Robinson, ac ef hefyd a lywyddodd y cyfarfod. Cafwyd adroddiad o waith y flwyddyn gan Andrew Settree.

Cyflwynodd Clive James, y Trysroydd, yr adroddiad ariannol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (diwedd Medi 2015) roedd gennym ddigon o arian wrth gefn ar gyfer y chwe mis nesaf yn unig.

Byddwn yn cyflwyno'r apel flynyddol am arian i gynnal y gwaith ddechrau'r flwyddyn newydd. Rydym yn gwneud cais am gymorth ariannol oddi wrth yr

enwadau ac ati, ond fel yr eglurwyd o'r blaen mae gofyn i ni fel eglwysi lleol ac unigolion ddod o hyd i fwy o'r arian sydd ei angen ar gyfer y gwaith hwn.

Eglurwyd fod y trefniant i gydweithio â mudiad Trobwynt yn Llŷn ac Eifionydd yn parhau. Dechreuwyd y trefniant hwnnw ddeunaw mis yn ôl erbyn hyn pan dderbyniodd ymddiriedolwyr Efe gais gan ymddiriedolwyr Trobwynt i Andrew eu cynorthwyo yn ystod cyfnod mamolaeth eu gweithiwr ieuencid. Ers hynny, mae Trobwynt wedi rhannu'r gost o gynnal swydd Andrew gyda ni. Erbyn hyn, mae'r trefniant hwnnw wedi ei ymestyn am dair blynedd arall, o ddechrau Medi 2015 hyd ddiwedd Awst 2018.

Diolch i Andrew am ei holl waith. Mae gyda ni ers saith mlynedd erbyn hyn, a dymunwn fendith Duw arno a'i waith i'r dyfodol.

## Panel Diogelwch

Cynhelir Noson Hyfforddiant gan y Panel Diogelwch Plant yng Nghapel Penuel, Bangor am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 2.

Mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer athrawon Ysgol Sul, arweinwyr clybiau plant ac ieuencid, ac unrhyw un sy'n ymwneud ag oedolion bregus o fewn yng ngwaith yr eglwysi.

Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl yn medru dod i'r cyfarfod hwn.

## Dechreuadau

Cynhaliwyd cyfarfod arall yn y gyfres 'Dechreuadau' gyda'r Parchg Casi Jones yn festri Bethlehem, Talybont ddydd Llun diwethaf. Hwn oedd yr olaf yn y gyfres ond byddwn yn trefnu i Casi ddod atom i drafod ymhellach yn Nhalybont a Llanllechid.

## Cymdeithas Llanberis

Croesawyd cyfarfod agoriadol tymor Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf. Cafwyd noson arbennig o dda yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen. Diolch iddi am ddod atom.

## Agor y Llyfr

Roedd ymweliad cyntaf criw 'Agor y Llyfr' ag Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener yn llwyddiant mawr.

Diolch yn fawr i Mrs Helen Sutherland, Penybont a Mrs Eirlys Hughes, Porth y Gogledd a phawb arall sy'n rhan o'r tim. Edrychwn ymlaen at yr ymweliad nesaf â'r Ysgol.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Tachwedd 17 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau a'r hamperi, byddem yn falch iawn o'u cael gan y bydd pob rhodd yn help i sicrhau llwyddiant y Ffair.

Y pris mynediad yw £1, yn cynnwys paned a bisged. Ni fydd angen i blant dalu. Dowch os medrwch i gefnogi'r ymdrech.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig flynyddol Capel Bethlehem yn y festri am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 1. Bydd croeso cynnes i bawb. Ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen.